Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Polisi a Datganiad Amgylcheddol 2018

## Taflen wybodaeth

Blwch gwybodaeth

I gael rhagor o gyngor, cysylltwch â'r: Swyddog Arweiniol: Cynaliadwyedd

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2019

Dyddiad adolygu arfaethedig: Tachwedd 2019

**Rheoli'r fersiwn**

| **Fersiwn y ddogfen** | **Awdur** | **Dyddiad cyhoeddi** | **Newidiadau a wnaed** |
|---|---|---|---|
| 3.0 | Cheryl Davies | Gorffennaf 2015 | Diwygio amcanion ar gyfer gwella, diweddaru gwybodaeth am berfformiad |
| 4.0 | Cheryl Davies | Hydref 2016 | Diweddaru gwybodaeth am berfformiad |
| 5.0 | Alison Palmer | Chwefror 2018 | Diweddaru gwybodaeth am berfformiad |
| 6.0 | Alison Palmer | Gorffennaf 2018 | Diweddaru gwybodaeth am berfformiad |
| 7.0 | Cheryl Davies<br>Alison Palmer | Chwefror 2019 | Yr amcanion diweddaraf ar gyfer cyfnod adrodd 2018-19 a diwygio canlyniadau allyriadau yn dilyn y cymhwysiad diweddaraf o ffactorau trosi Defra i bob blwyddyn adrodd. |

**Asesiad Effaith**

- Cynhaliwyd asesiad rhesymwaith busnes ac mae'r polisi hwn yn cyfrannu at amcanion strategol ac egwyddorion cyflwyno Estyn.
- Cynhaliwyd asesiad o effaith ar gydraddoldeb ac nid ystyrir bod y polisi hwn yn cael effaith niweidiol ar unrhyw bobl ar sail oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Polisi Amgylcheddol** | **1** |
| **Datganiad Amgylcheddol** | **2** |
| **Sefydliad** | **2** |
| **Amcanion amgylcheddol 2018-2019** | **3** |
| **Amcanion amgylcheddol 2017-2018** | **3** |
| **Perfformiad amgylcheddol Estyn yn unol ag amcanion 2017-2018** | **4** |
| 1 Parhau i fonitro'r $CO_2$ a gynhyrchir, gan anelu at ostyngiad o 5% dros y pum mlynedd nesaf (ar sail ffigurau 2012-2013). | 4 |
| 2 Yn unol ag ymrwymiad "Tuag at Ddyfodol Diwastraff" LlC, cynyddu ailgylchu 5% dros y pum mlynedd nesaf (ar sail ffigurau 2013-2014). | 6 |
| 3 Yn unol ag ymrwymiad "Tuag at Ddyfodol Diwastraff" LlC, lleihau deilliannau gwastraff 1.2% flwyddyn ar ôl blwyddyn tan 2050 (ar sail ffigurau 2013-2014). | 7 |
| 4 Lleihau effaith cludiant y sefydliad gan gyfrannu at y targed i leihau $CO_2$ (amcan 1). | 9 |
| 5 Cyfleu mentrau amgylcheddol (a chynaliadwyedd ehangach) wrth y cyhoedd a'r staff. | 10 |
| 6 Parhau i ymgorffori ystyriaethau amgylcheddol mewn gweithdrefnau prynu. | 11 |
| **Dilysu Datganiad Amgylcheddol** | **13** |
| **Atodiad 1: Amcanion a thargedau – adroddiad diwedd cyfnod 2017-2018** | **14** |
| **Atodiad 2: Cofrestr agweddau amgylcheddol** | **22** |

## Polisi Amgylcheddol

Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae'n annibynnol ar, ond yn cael ei ariannu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Estyn yn gyfrifol am gynnal arolygiadau statudol ac adrodd ar ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn hefyd yn rhoi cyngor penodol i Lywodraeth Cymru i ymateb i gylch gwaith blynyddol gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau.

Ar 1 Ebrill 2018, roedd Estyn yn cyflogi 112 o bobl, gan gynnwys staff parhaol a staff cyfnod penodol a secondeion / staff asiantaeth. Mae polisi amgylcheddol Estyn yn cynnwys holl weithgareddau'r sefydliad. Mae Estyn wedi ymrwymo i ddiogelu'r amgylchedd, gan wella'i reolaeth a'i berfformiad amgylcheddol yn barhaus, bodloni cydymffurfiad a rhwymedigaeth amgylcheddol (rheoleiddio a gwirfoddol fel ei gilydd) ac atal llygredd.

Mae Estyn wedi nodi bod ein prif effeithiau ar yr amgylchedd yn deillio o'r defnydd o ynni, cludiant, cynhyrchu gwastraff a defnyddio deunyddiau swyddfa. Bydd Estyn yn ceisio lleihau ei effeithiau ar yr amgylchedd i'r eithaf trwy ymrwymiad i set gynhwysfawr o amcanion ar gyfer gwella, sef:

1. Parhau i ddefnyddio ynni'n effeithlon a monitro'r $CO_2$ a gynhyrchir, gan anelu at ostyngiad o 10% dros y pum mlynedd nesaf (ar sail ffigurau 2017-2018).

2. Yn unol ag ymrwymiad "Tuag at Ddyfodol Diwastraff" LIC, cynyddu ailgylchu 5% dros y pum mlynedd nesaf (ar sail ffigurau 2013-2014).

3. Yn unol ag ymrwymiad "Tuag at Ddyfodol Diwastraff" LIC, lleihau deilliannau gwastraff 1.2% flwyddyn ar ôl blwyddyn tan 2050 (ar sail ffigurau 2013-2014).

4. Lleihau effaith cludiant y sefydliad gan gyfrannu at y targed i leihau $CO_2$ (amcan 1).

5. Cyfleu mentrau amgylcheddol a'n hymrwymiad i gynaliadwyedd ehangach i'r cyhoedd a'r staff.

6. Parhau i ymgorffori ystyriaethau amgylcheddol mewn gweithdrefnau prynu.

Trefnir bod y polisi hwn ar gael i bob aelod o staff ac mae wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan. Bydd y Swyddog Arweiniol: Cynaliadwyedd yn adolygu'r polisi hwn o leiaf bob blwyddyn.

Meilyr Rowlands
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros
Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Datganiad Amgylcheddol

### Sefydliad

Ein **cenhadaeth** yw cyflawni rhagoriaeth i bob dysgwr yng Nghymru trwy ddarparu gwasanaethau arolygu a chyngor annibynnol, o ansawdd uchel. Ein **gweledigaeth** yw cael ein cydnabod trwy arbenigedd ein staff yn llais awdurdodol ar addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

**Dyma ein hamcanion strategol:**

AS1: Darparu atebolrwydd cyhoeddus i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru

AS2: Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru

AS3: Meithrin gallu wrth gyflwyno addysg a hyfforddiant yng Nghymru

**Dyma ein hegwyddorion cyflwyno:**

EC1: Parhau i ddatblygu Estyn yn sefydliad ‘gwerth gorau’ a ‘chyflogwr enghreifftiol’

EC2: Parhau i gydweithio ag arolygiaethau eraill i gefnogi gwelliant

**Dyma ein gwerthoedd:**

- Cadw dysgwyr a dinasyddion wrth wraidd ein gwaith
- Gweithredu gyda didwylledd, uniondeb a gwrthrychedd, gan ddangos y safonau uchaf o wasanaeth cyhoeddus
- Meithrin amgylchedd gweithio difyr ac iach
- Gweithio mewn partneriaeth â phobl eraill, tra’n cynnal ein hannibyniaeth
- Dangos arweinyddiaeth a gwaith tîm effeithiol ar bob lefel
- Gwerthfawrogi pobl a’r cyfraniadau a wnânt
- Annog cyfrifoldeb, menter ac arloesedd

Mae’r adran amdanom ni ar ein gwefan yn esbonio ymhellach y gwaith a wnawn o ran arolygiadau darparwyr addysg a hyfforddiant, darparu cyngor ac arweiniad, meithrin gallu a lledaenu arfer orau, a gweithio mewn partneriaeth ag arolygiaethau eraill.

Mae ein hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy wedi’i wreiddio yn ein hegwyddorion cyflwyno, a byddwn yn ymgorffori ystyriaethau datblygu cynaliadwy yn ein holl weithgareddau a phrosesau, ac yn ymgymryd â phroses achredu ‘Safon y Ddraig Werdd’ i nodi unrhyw gyfleoedd i wella ein gweithgareddau rheoli amgylcheddol ymhellach.

## Amcanion amgylcheddol 2018-2019

Mae prif effeithiau Estyn ar yr amgylchedd yn deillio o ddefnyddio ynni, cludiant, cynhyrchu gwastraff a defnyddio deunyddiau swyddfa. Mae Atodiad 2 (Cofrestr Agweddau Amgylcheddol) yn nodi'n fanwl yr agweddau hynny ar weithgareddau a gwasanaethau Estyn y mae effeithiau amgylcheddol yn deillio ohonynt.

Diwygiwyd amcanion a thargedau ar gyfer 2018-2019, a'u nod yw gwella rheolaeth a pherfformiad amgylcheddol a lleihau effeithiau amgylcheddol Estyn.

1 Parhau i ddefnyddio ynni'n effeithlon a monitro'r $CO_2$ a gynhyrchir, gan anelu at ostyngiad o 10% dros y pum mlynedd nesaf (ar sail ffigurau 2017-2018).

2 Yn unol ag ymrwymiad "Tuag at Ddyfodol Diwastraff" LlC, cynyddu ailgylchu 5% dros y pum mlynedd nesaf (ar sail ffigurau 2013-2014).

3 Yn unol ag ymrwymiad "Tuag at Ddyfodol Diwastraff" LlC, lleihau deilliannau gwastraff 1.2% flwyddyn ar ôl blwyddyn tan 2050 (ar sail ffigurau 2013-2014).

4 Lleihau effaith cludiant y sefydliad gan gyfrannu at y targed i leihau $CO_2$ (amcan 1).

5 Cyfleu mentrau amgylcheddol a'n hymrwymiad i gynaliadwyedd ehangach i'r cyhoedd a'r staff.

6 Parhau i ymgorffori ystyriaethau amgylcheddol mewn gweithdrefnau prynu.

## Amcanion amgylcheddol 2017-2018

Mae'r ddogfen hon yn nodi ein hamcanion amgylcheddol ar gyfer 2017-2018 ac yn adrodd ar ein perfformiad amgylcheddol yn y gorffennol.

1 Parhau i fonitro'r $CO_2$ a gynhyrchir, gan anelu at ostyngiad o 5% dros y pum mlynedd nesaf (ar sail ffigurau 2012-2013).

Gwaelodlin Estyn 2012-2013: 205,607.18 kg $CO_2$
Targed erbyn 2017-2018: 195,326.82 kg $CO_2$

2 Yn unol ag ymrwymiad "Tuag at Ddyfodol Diwastraff" LlC, cynyddu ailgylchu 5% dros y pum mlynedd nesaf (ar sail ffigurau 2013-2014).

Ailgylchu Estyn yn seiliedig ar bwysau mewn cilogramau o wastraff:
Gwaelodlin Estyn 2013-2014: ailgylchu 71%
Targed Estyn 2018-2019: ailgylchu 76%.

3 Yn unol ag ymrwymiad "Tuag at Ddyfodol Diwastraff" LlC, lleihau deilliannau gwastraff 1.2% flwyddyn ar ôl blwyddyn tan 2050 (ar sail ffigurau 2013-2014).

Atal gwastraff Estyn: yn seiliedig ar bwysau mewn cilogramau o wastraff:
Gwaelodlin 2013-2014: 8,079.5 kg o wastraff blynyddol.
Targed: 1.2% o ostyngiad flwyddyn ar ôl blwyddyn tan 2050.

4 Lleihau effaith cludiant y sefydliad gan gyfrannu at y targed i leihau CO2 (amcan 1).

5 Cyfleu mentrau amgylcheddol (a chynaliadwyedd ehangach) i'r cyhoedd a'r staff.

6 Parhau i ymgorffori ystyriaethau amgylcheddol mewn gweithdrefnau prynu.

## Perfformiad amgylcheddol Estyn

Mae'r adran hon yn crynhoi perfformiad amgylcheddol Estyn yn erbyn ein hamcanion amgylcheddol ar gyfer 2017-2018. Mae Atodiad 1 yn nodi adroddiad manwl ar ddiwedd cyfnod yn erbyn yr amcanion hyn ar gyfer y cyfnod 2017-2018.


**1. Parhau i fonitro'r CO2 a gynhyrchir, gan anelu at ostyngiad o 5% dros y pum mlynedd nesaf (ar sail ffigurau 2012-2013).**

| | |
|---|---|
| Gwaelodlin Estyn 2012-2013: | 205,607.18 kg CO2 |
| Targed erbyn 2017-2018: | 195,326.82 kg CO2 |
| | |
| 2013-2014: | 206,788 kg CO2 |
| 2014-2015: | 188,706 kg CO2 |
| 2015-2016: | 193,991 kg CO2 |
| 2016-2017: | 162,429 kg CO2 |
| 2017-2018 | 153,727 kg CO2 |

*Nodiadau:

- Pan gymerodd y landlord newydd reolaeth dros y safle yn ystod 2016, gosodwyd mesuryddion nwy calibredig newydd; mae allyriadau a adroddwyd ar gyfer 2016-17 wedi cael eu haddasu i adlewyrchu hyn.


- Defnyddiwyd ffactorau trosi blynyddol Defra yn yr adroddiad hwn a'u cymhwyso i ddata pob blwyddyn adrodd yn y drefn honno.




Cyfanswm ein hallyriadau $CO_2$ yn 2017-2018 oedd 153,727 kg, sy'n ostyngiad o 5.4% o gymharu â ffigur y llynedd (162,429 kg) ac sydd ymhell o fewn ein targed o 195,326.82 kg erbyn 2017-2018.

I Estyn, oherwydd natur ein busnes, cynhyrchir y gyfran uchaf o allyriadau $CO_2$ gan ein defnydd o gludiant. Er gwaethaf hyn, bu gostyngiad o 19% (90,955 kg $CO_2$) yn 2017-2018 o gymharu â ffigur y flwyddyn flaenorol ar gyfer allyriadau cludiant, sef 112,656 kg.

Caiff cyfran yr allyriadau $CO_2$ ar draws trydan, nwy a theithio ar gyfer y cyfnod ei dangos isod:




Gall Estyn gadarnhau nawr bod ein trydan 100% yn adnewyddadwy (cefnogir tariff ynni gan Renewable Energy Guarantees of Origin (REGO)) ar 1 Ebrill 2018 ac mae'r Ganolfan Ynni Gwyrdd wedi cadarnhau y gellir adrodd ein hallyriadau cwmpas 2 ar gyfer trydan o'r grid cenedlaethol fel sero yn y dyfodol.

Mae'r mentrau amrywiol y mae Estyn yn eu hyrwyddo i gefnogi gostyngiad yn yr allyriadau CO2 wedi'u nodi yn adran 4 isod.


**2. Yn unol ag ymrwymiad "Tuag at Ddyfodol Diwastraff" LlC, cynyddu ailgylchu 5% dros y pum mlynedd nesaf (ar sail ffigurau 2013-2014).**

Mae gan Estyn ddulliau gwaredu ailgylchu/arbed ynni[1] ar waith ar gyfer ffrydiau gwastraff amrywiol, gan gynnwys papur, caniau alwminiwm, poteli plastig, gwastraff bwyd, offer TG ac offer electronig arall. Caiff 'gwastraff bagiau duon' Estyn ei losgi yn llosgydd Parc Trident Viridor, gydag adferiad ynni. Ein targed (yn unol â LlC) yw i wastraff wedi'i ailgylchu gyfrif am 76% o gyfanswm y gwastraff a gynhyrchir erbyn 2018-2019.

Disgynnodd y gyfradd gwastraff cyffredinol 26% i 5774kg yn 2017-2018 (7847kg yn 2016-2017) gyda 5228 kg (91%) o hyn yn cael ei ailgylchu; arhosodd swm y gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi ar yr un lefel wirioneddol â'r flwyddyn flaenorol, ac roedd

[1] Ailgylchu/arbed ynni gan Estyn ar sail pwysau mewn cilogramau o wastraff

yn cynrychioli 9% o gyfanswm y deilliannau gwastraff. Rydym yn parhau i fod o fewn y targed a osodwyd am y bedwaredd flwyddyn yn olynol.




Gwastraff cynnyrch mislif oedd ffrwd wastraff olaf Estyn a oedd yn mynd i safleoedd tirlenwi. PHS yw darparwr gwasanaeth Estyn ac maent wedi cyflwyno rheoli gwastraff cynaliadwy, fel nad yw gwastraff yn mynd i safleoedd tirlenwi. Mae ganddynt broses wedi'i phatentu, lle maent yn gwneud y gwastraff yn ddigon sych i adfer ynni ohono, ar ffurf Tanwydd yn Deillio o Sbwriel (RDF). Felly, o 2018-2019, ni fydd gan Estyn unrhyw wastraff yn mynd i safleoedd tirlenwi.

**3. Yn unol ag ymrwymiad "Tuag at Ddyfodol Diwastraff" LIC, lleihau deilliannau gwastraff 1.2% flwyddyn ar ôl blwyddyn tan 2050 (ar sail ffigurau 2013-2014).**


Mae Estyn yn annog pob aelod o staff i leihau gwastraff[2] yn unol â'r 3 egwyddor, sef lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu.

| | |
|---|---|
| Gwaelodlin 2013-2014: | 8,080 kg o ddeilliannau gwastraff blynyddol (R-5,767 kg/L-2,313 kg) |
| Targed: | 1.2% o ostyngiad flwyddyn ar ôl blwyddyn tan 2050. |

[2] Atal gwastraff Estyn: ar sail pwysau mewn cilogramau o wastraff.

| | |
|---|---|
| 2014-2015: | 6,891 kg (R-5,456 kg/L-1,435 kg) |
| 2015-2016: | 9,175 kg (R/ER-8,319 kg/L-856 kg) |
| 2016-2017 | 7,847 kg (R/ER 7,301 kg/L 546 kg) |
| 2017-2018 | 5,774 kg (R/ER 5,228 kg/L 546 kg) |

Lleihawyd swm y gwastraff wedi'i ailgylchu a gynhyrchwyd yn ystod 2017/18 gan 26%, mewn cyferbyniad â'r un cyfnod y llynedd.




Yn fwy cyffredinol, llwyddodd Estyn i gynyddu ymhellach y defnydd o gyfathrebu electronig o fewn y swyddfa, ar gyhoeddiadau allanol ac wrth ddefnyddio deunyddiau hyfforddi ar gyfer arolygwyr allanol.  Mae mentrau eraill sydd wedi'u hymgorffori yn cynnwys:


- Microsoft Sharepoint, sef llwyfan ar gyfer TGCh Estyn sy'n cefnogi cydweithio ac yn cynnwys ystafell arolygu rithwir ar gyfer rhannu gwybodaeth am arolygiadau rhwng darparwyr ac Estyn
- dosbarthu adroddiadau arolygiadau yn electronig i Aelodau Cynulliad a darparwyr
- dosbarthu cylchlythyrau mewnol ac allanol ar-lein; a
- chyhoeddi dogfennau corfforaethol ac adroddiadau cylch gwaith Estyn trwy e-gyfathrebu yn hytrach na'u hargraffu ar ffurf copi caled.

Mae Estyn wedi ymrwymo hefyd i leihau gwastraff yn ei brosesau recriwtio; ystyrir ceisiadau yn electronig gan y panel gan ddefnyddio gliniaduron a chofbinnau. Parheir i gynnal ymgyrchoedd caffael yn electronig.

Cyfanswm ein gwariant ar wastraff yn 2017-2018 oedd £3,777.00, sy'n cynnwys gwasanaethau'r cyngor lleol a gwasanaeth ailgylchu arbenigol o ran 'gwastraff sensitif oddi ar y safle'.

## 4. Lleihau effaith cludiant y sefydliad gan gyfrannu at y targed i leihau CO2 (amcan 1).

Mae cludiant yn cynnwys un o effeithiau amgylcheddol mwyaf arwyddocaol y sefydliad. Dyma oedd cyfanswm milltiredd blynyddol arolygwyr (trwy gerbydau personol staff a chan ddefnyddio'r contract llogi ceir) ar gyfer y blynyddoedd diwethaf.





Mae Estyn yn annog cydweithwyr i rannu car wrth deithio ar fusnes swyddogol er mwyn lleihau effaith amgylcheddol teithio swyddogol. Roedd milltiredd blynyddol arolygwyr a gofnodwyd ar ddiwedd 2017-2018 yn dangos gostyngiad o 18% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Parhaodd y sefydliad i wneud defnydd ehangach o'i gyfleuster galwadau cynadledda rhyngweithiol i leihau teithio i gyfarfodydd yn ystod y cyfnod hwn. Gallai hyn fod wedi cyfrannu at y gostyngiad hwn.

Nod contract llogi ceir Estyn yw lleihau'r effaith ar yr amgylchedd trwy deithio wrth i geir sydd ar gael trwy'r cynllun gael eu dewis yn benodol gyda'r nod i leihau effaith yr

allyriadau o gludiant.  Caiff y ceir llogi eu diweddaru'n rheolaidd i sicrhau bod cerbydau ag allyriadau isel yn cael eu defnyddio.

Hefyd, mae staff sy'n gyrru fel rhan o'u rôl yn cael eu hannog i yrru'n ddiogel a llenwi eu cerbydau â thanwydd yn effeithlon, a chaiff cyrsiau eu cynnig i ddechreuwyr newydd a staff presennol.  Mae Estyn hefyd yn ymdrechu i drefnu cyrsiau a digwyddiadau yn ddaearyddol i leihau teithio i ddigwyddiad.  Mae gan Estyn bolisi ar waith ar gyfer gyrru fel rhan o ddyletswyddau swyddogol, sy'n amlinellu ymagwedd Estyn at yrru tra bydd staff ar fusnes swyddogol.

Dangosir isod yr allyriadau cludiant blynyddol arolygwyr (car, rheilffordd* ac awyr) ar gyfer yr ychydig flynyddoedd diwethaf.




*Sylwer:Cyfrifwyd allyriadau rheilffordd hyd yn hyn fel cyfartaledd ar gyfer bob taith.  O 2018- 2019, bydd allyriadau rheilffordd gwirioneddol yn cael eu cyfrifo ar gyfer pob taith reilffordd.

Mae busnes craidd Estyn yn golygu bod arolygwyr yn teithio ledled Cymru i ymweld â darparwyr ar draws pob sector addysg.  Yn ystod 2017-2018, bu gostyngiad o 19% mewn allyriadau CO2 o gludiant.  Fel y nodwyd eisoes, allyriadau o gludiant sy'n cyfrif am y gyfran fwyaf o'n hallyriadau; roedd hyn yn 59% o gyfanswm yr allyriadau yn ystod y cyfnod hwn, o gymharu â 66% yn 2016-2017.

Gostyngodd allyriadau tanwydd o ddisel a phetrol 19.7% yn 2017-2018, gostyngodd allyriadau teithio rheilffordd 22% a gostyngodd allyriadau teithio awyr 8.2%, o gymharu â ffigurau 2016-2017.

Nod Estyn yw lleihau allyriadau CO2 o gludiant fel yr amlinellir uchod ond fel arolygiaeth sy'n cwmpasu Cymru gyfan, mae effaith cludiant Estyn yn agwedd allweddol ar ein gwaith.

## 5. Cyfleu mentrau amgylcheddol (a chynaliadwyedd ehangach) i'r cyhoedd a'r staff.

Mae proses arolygu Estyn yn parhau i sicrhau bod dealltwriaeth disgyblion o ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn datblygu'n briodol wrth iddynt symud trwy eu haddysg.

Mae Estyn yn parhau i gyfarfod â sefydliadau fel Rhaglen Dysgu Byd-eang Cymru, (RhDB-C) i rannu arfer dda a chynnal y proffil addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang (ADCDF) mewn ysgolion.

Mewn arolygiadau yn ystod 2017/18, lle nodwyd arfer gref, roedd nodweddion yn cynnwys:

- caiff gwersi ADCDF eu hamserlennu, gan gynnwys gweithgareddau ymgysylltu a chyflwyno, eu monitro'n effeithiol gan y cydlynydd ADCDF
- defnyddir ADCDF i ddatblygu dealltwriaeth well o amrywiaeth a datblygu goddefgarwch, gan helpu disgyblion i ddatblygu fel dinasyddion byd-eang
- defnyddir ADCDF fel cyd-destun perthnasol ar gyfer disgyblion sy'n rhoi cyflwyniadau ac yn cwblhau tasgau ysgrifennu estynedig yn eu gwaith llythrennedd
- defnyddir gweithgareddau cyfoethogi, fel ymweliad â Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn effeithiol i gefnogi addysgu ADCDF
- darperir cyfleoedd arwain yn rheolaidd ar gyfer disgyblion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, trwy waith grwpiau fel y pwyllgor eco

Fodd bynnag, nodwyd mai ychydig iawn o gyfleoedd dysgu proffesiynol a geir ar gyfer staff sy'n gysylltiedig ag ADCDF, ac mae ADCDF wedi'i chynnwys mewn ychydig iawn o gynlluniau datblygu.

Mae Estyn wedi gweithio hefyd i gyfleu gwybodaeth a chymorth priodol i gynorthwyo staff i arfer eu cyfrifoldeb amgylcheddol yn ystod y flwyddyn.  Er enghraifft, mae ein Polisi a Datganiad Amgylcheddol wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan, mae erthyglau amgylcheddol wedi'u cynnwys yng nghylchlythyr staff Estyn, mae ein Grŵp Cyflwyno Gwasanaethau yn fforwm bob deufis ar gyfer materion gweithredol ac wedi cynnwys cynnydd yn erbyn amcanion a thargedau amgylcheddol, ac mae asesiadau effaith, a gynhelir ar gyfer pob un o bolisïau Estyn, wedi cynnwys rhoi ystyriaeth i berfformiad amgylcheddol.

Mae Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn gosod dyletswydd ar rai sefydliadau i sicrhau mai datblygu cynaliadwy (DC) yw eu hegwyddor drefnu ganolog.  Er na fydd y

ddyletswydd hon yn berthnasol i Estyn, rydym wedi gwneud cryn dipyn i gyflwyno’r elfennau datblygu cynaliadwy angenrheidiol yn ein hamcanion strategol a’n hegwyddorion cyflwyno. Mae Cynllun Blynyddol Estyn 2017 - 2018 wedi’i gyhoeddi ar wefan Estyn ac mae’n cynnwys y modd y mae Estyn yn gweithio i gyflawni’r weledigaeth ar gyfer Cymru a nodir yn y nodau lles, a’r pum ffordd o weithio (yr egwyddor datblygu cynaliadwy) yn Atodiad 1.

## 6. Parhau i ymgorffori ystyriaethau amgylcheddol mewn gweithdrefnau prynu.

Wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau cysylltiedig nad ydynt yn ymwneud ag arolygu, pan fo’n berthnasol, mae’n ofynnol i gyflenwyr gefnogi ymrwymiad Estyn i leihau ei effaith ar yr amgylchedd a rhoddir y ddolen i’r wefan at Bolisi Amgylcheddol Estyn iddynt. Ar gyfer caffael nad yw’n ymwneud ag arolygu, mae’r holl ddogfennau caffael sy’n deillio o Estyn wedi bod ar ffurf electronig er Medi 2010. Caiff ystyriaeth i ffactorau amgylcheddol ei chynnwys yn rheolaidd mewn meini prawf gwerthuso tendrau a rhoddir cyfarwyddyd i gyflenwyr ddarparu dolenni cyswllt at eu gwefan, a sganio ardystiad perthnasol i ddangos tystiolaeth o hyn, yn hytrach nag anfon dogfennau manwl â’u cynnig.

Wrth droi at gaffael gwasanaethau yn gysylltiedig ag arolygu, aeth cyfnod dau y prosiect Proffiliau Arolygwyr Estyn yn fyw ym mis Awst 2017. Mae hyn yn galluogi Arolygwyr Ychwanegol dan Gontract i gyflwyno cynigion contract i ni yn electronig a derbyn cynigion contract trwy borth diogel. Mae’r system hon hefyd yn offeryn effeithiol ar gyfer rheoli darparu adnoddau a defnyddio Arolygwyr Ychwanegol dan Gontract, ac mae wedi dileu’r angen i gyhoeddi llythyrau cynigion contract, gan leihau’r gofynion argraffu i’r ddwy ochr.

Bydd cyflenwyr a ddarperir trwy fframweithiau’r llywodraeth eisoes wedi dangos eu hymrwymiad i wella’r amgylchedd i gymhwyso i gael eu cynnwys mewn tendrau. Pan na fydd unrhyw fframwaith llywodraeth addas, neu ar adegau pan na fydd cost nwyddau/gwasanaethau yn gofyn am dendr llawn, darperir cyflenwyr trwy gronfa ddata Sell2Wales, sydd hefyd yn cefnogi mentrau bach a chanolig yng Nghymru. Mae defnyddio’r llwybr hwn wedi galluogi Estyn i ymgysylltu â chyflenwyr lleol, a phan fo modd, lleihau allyriadau a lleihau’r ôl-troed carbon, er enghraifft defnyddir cwmnïau lleol ar gyfer pob digwyddiad arlwyo mewnol; gwasanaethau ffilmio, dylunio graffeg a gwasanaethau ffotograffiaeth ddigidol ar gyfer Adroddiad Blynyddol PAEM.

## Dilysiad o'r Datganiad/Adroddiad Amgylcheddol

Mae'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y Datganiad/Adroddiad Amgylcheddol hwn wedi cael ei phrofi a'i dilysu gan archwilydd y Ddraig Werdd, a chanfuwyd bod yr asesiad yn un teg a chywir o weithgareddau a pherfformiad amgylcheddol y sefydliad dros y flwyddyn ddiwethaf o fewn cwmpas diffiniedig y sefydliad.

| | |
|---|---|
| Archwilydd Arweiniol: | Michelle Bales |
| Y Sefydliad Archwilio: | Green Business Centre |
| Dyddiad yr Archwiliad: | 04/02/2019 |
| Yn ddilys tan: | 20/02/2020 |

Nid yw'r Dilysiad o'r Datganiad/Adroddiad Amgylcheddol yn cadarnhau ardystio System Rheolaeth Amgylcheddol y sefydliad i Safon y Ddraig Werdd.

Gellir cadarnhau'r ardystiad trwy gael copi o dystysgrif ddilys y Ddraig Werdd y sefydliad neu fynd at wefan y Ddraig Werdd, sef www.greendragonems.com

## Atodiad 1: Amcanion a thargedau – adroddiad diwedd cyfnod 2017-2018

| Cyf | Amcan | Targed / Camau Gweithredu | Adroddiad cynnydd | Terfyn amser | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|---|---|
| T01 | Amcan 1: Parhau i fonitro'r $CO_2$ a gynhyrchir, gan anelu at ostyngiad o 5% dros y pum mlynedd nesaf (ar sail ffigurau 2012-2013) | Gwaelodlin 2012-2013: 205,607 kgs$CO_2$<br>Targed erbyn 2017-2018: 195,327 kgs $CO_2$<br><br>1.1. Sicrhau bod yr holl offer trydanol nad yw'n hanfodol yn cael ei ddiffodd ar ddiwedd y dydd i leihau gwastraff ynni.<br><br>1.2 Byddwn yn prynu offer TG newydd sy'n effeithlon o ran ynni sydd â chyfraddiad seren rhagorol<br><br>1.3 Aerdymheru – archwilio opsiynau gyda'r landlord i gael system sy'n fwy effeithlon o ran ynni.<br><br>1.4 Monitro a chofnodi defnydd o drydan a nwy yn rheolaidd | **Cynnydd tuag at darged**:<br>Cyfanswm ein hallyriadau $CO_2$ yn 2017-2018 oedd 153,727 kg sy'n ostyngiad o 5.4% o gymharu a ffigur y llynedd (162,429 kg) ac sydd ymhell o fewn ein targed o 195,326.82 kg erbyn 2017-18.<br><br>**2012-2013: 205,607.18 kg $CO_2$** (gwaelodlin Estyn)<br>2013-2014: 206,788 kg $CO_2$<br>2014-2015: 188,706 kg $CO_2$<br>2015-2016: 193,991 kg $CO_2$<br>2016-2017: 162,429 kg $CO_2$<br>**2017-2018: 153,727 kg $CO_2$**<br><br>1.1 Mae'r drefn ddyddiol o ddiffodd yn awtomatig yr holl offer TG nad yw'n hanfodol (cyfrifiaduron bwrdd gwaith, monitorau a gliniaduron mewn ystafelloedd cyfarfod) am 7:00pm bob dydd yn parhau i weithio'n dda o ran cefnogi lleihau gwastraff ynni yn y swyddfa. Yn ychwanegol, mae peiriannau argraffu a llungopïo swyddfa yn dychwelyd i'r modd 'cysgu' pan na fyddant yn cael eu defnyddio.<br><br>1.2 Mae tîm Caffael Estyn yn darparu offer sy'n effeithlon o ran ynni sydd â "chyfraddiad seren rhagorol" yn rhagweithiol wrth adnewyddu offer TG.<br><br>1.3 Gosodwyd system sy'n fwy effeithlon o ran ynni yn lle system aerdymheru Estyn yn ystod rhan olaf 2016-2017.<br><br>1.4 Mae defnydd o nwy a thrydan yn parhau i gael ei fonitro a'i gofnodi'n rheolaidd. Rydym yn cysylltu'n | 31/03/18 | Swyddog Gwasanaethau Swyddfa |

| Cyf | Amcan | Targed / Camau Gweithredu | Adroddiad cynnydd | Terfyn amser | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | rheolaidd â'r landlord sy'n darparu data defnydd nwy bob mis, ar gais. | | |
| T02 | Amcan 2: Yn unol ag ymrwymiad "Tuag at Ddyfodol Diwastraff" LIC, cynyddu ailgylchu 5% dros y pum mlynedd nesaf (ar sail ffigurau 2013-2014). | Mae "Tuag at Ddyfodol Diwastraff" Llywodraeth Cymru (y strategaeth wastraff drosfwaol ar gyfer Cymru) yn cynnwys nifer o dargedau.<br><br>• Ailgylchu – ailgylchu 70% o wastraff sector cyhoeddus erbyn 2024/25.<br><br>Ailgylchu T02 Estyn:<br>Gwaelodlin 2013-2014: ailgylchu 71%<br>Targed 2018-2019: ailgylchu 76%.<br><br>2.1 Gwneud y defnydd mwyaf o'r cyfleusterau ailgylchu yn y swyddfa fel nad yw gwastraff yn mynd i safleoedd tirlenwi.<br><br>2.2 Byddwn yn annog pobl sy'n gweithio gartref i ddilyn arfer gynaliadwy o ran gwastraff/ailgylchu. | **Cynnydd tuag at darged:**<br>Disgynnodd y deilliannau gwastraff cyffredinol 26% i 5774kg yn 2017-2018 gyda 5228 kg (91%) o hyn yn cael ei ailgylchu. Rydym yn parhau i fod o fewn y targed a osodwyd ar gyfer y bedwaredd flwyddyn yn olynol.<br><br>**2013-2014 – ailgylchwyd 71% ac aeth 29% i safleoedd tirlenwi**<br>2014-2015 - ailgylchwyd 79% ac aeth 21% i safleoedd tirlenwi<br>2015-2016 - ailgylchwyd 91% /arbed ynni ac aeth 9% i safleoedd tirlenwi<br>(% yn seiliedig ar bwysau mewn cilogramau (kg) o'r gwastraff a ailgylchwyd)<br>2016-2017 – ailgylchwyd 93%/arbed ynni ac aeth 7% i safleoedd tirlenwi<br>**2017-2018 – ailgylchwyd 91%/arbed ynni ac aeth 9% i safleoedd tirlenwi**<br><br>2.1 Mae Estyn yn parhau i wneud defnydd effeithiol o'r dulliau gwaredu ailgylchu/arbed ynni sefydledig y mae wedi eu rhoi ar waith ar gyfer ffrydiau gwastraff amrywiol; mae hyn yn cynnwys papur, caniau alwminiwm, poteli plastig, offer TG ac offer electronig arall.<br><br>2.2 Mae polisi gweithio gartref Estyn yn nodi arweiniad i AEM ar ddychwelyd/gwaredu gwastraff sensitif trwy'r contractau ailgylchu 'yn y swyddfa' ar gyfer papur, cetris argraffydd a batris. Mae'r tîm Gwasanaethau Swyddfa yn | 31/03/18 | Swyddog Gwasanaethau Swyddfa |

| Cyf | Amcan | Targed / Camau Gweithredu | Adroddiad cynnydd | Terfyn amser | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | atgoffa AEM yn amserol am hyn cyn iddynt fynychu'r rhaglen datblygiad proffesiynol tymhorol yn y swyddfa. | | |
| T03 | Amcan 3: Yn unol ag ymrwymiad "Tuag at Ddyfodol Diwastraff" LIC, lleihau Deilliannau gwastraff 1.2% flwyddyn ar ôl blwyddyn tan 2050 (ar sail ffigurau 2013-2014). | Mae "Tuag at Ddyfodol Diwastraff" Llywodraeth Cymru (y strategaeth wastraff drosfwaol ar gyfer Cymru) yn cynnwys nifer o dargedau.<br>• Atal gwastraff - gostyngiad blynyddol o 1.2% mewn gwastraff, flwyddyn ar ôl blwyddyn tan 2050 (gostyngiad % blynyddol o waelodlin 2006-2007).<br>Estyn T03.<br><br>Atal gwastraff Estyn:<br>Gwaelodlin 2013-2014: 8,079.5kg o wastraff blynyddol.<br><br>Targed: gostyngiad o 1.2% flwyddyn ar ôl blwyddyn tan 2050.<br><br>Bydd hyn yn cael ei wneud trwy:<br>3.1 gynyddu'r defnydd o gyfathrebu electronig ar arolygiadau.<br><br>3.2 cynyddu'r defnydd o gyfathrebu electronig ystod prosesau caffael. | **Cynnydd tuag at darged:**<br>Adroddodd Estyn am gynnydd yng nghyfanswm y gwastraff yn 2015-16 ar ôl gwaredu llawer o offer swyddfa. Rydym yn ôl ar y trywydd iawn erbyn hyn, fel y mae canlyniadau yn y ddwy flynedd ddiwethaf yn dangos lle disgynnodd gwastraff 15% yn 2016-2017 a 26% arall yn 2017-2018.<br><br>2013-2014: 8,080 kg (R-5,767 kg/L-2,313 kg)<br>2014-2015: 6,891 kg (R-5,456 kg/L-1,435 kg)<br>2015-2016: 9,175 kg (R/ER- 8,319 kg/L-856 kg)<br>2016-2017: 7,847 kg (R/ER 7,301 kg/L 546 kg)<br>2017-2018: 5,774 kg (R/ER 5,228 kg/L 546 kg)<br><br>3.1 Mae Estyn yn annog llenwi holiaduron dysgwyr ar-lein, gyda Chydlynwyr Arolygu yn monitro cwblhau a sicrhau ymwybyddiaeth rhieni o sut i fynd at arolygon ar-lein; mae rhagor o ddatblygiadau i gefnogi cydweithio a rhannu gwybodaeth am arolygiadau rhwng Estyn a darparwyr yn mynd rhagddynt.<br><br>3.2 Mae'r holl ymgyrchoedd caffael ar gyfer y rhan fwyaf yn ddibapur – h.y. o wahoddiad i dendro, derbyn cynigion, gwerthuso tendrau a dyfarnu a chyfleu canlyniad y tendr wrth y cyflenwr.<br><br>3.3 Mae gan Estyn liniaduron a thaflunyddion ym mhob ystafell gyfarfod gyda mynediad at ymarferoldeb GoTo sy'n galluogi staff sy'n gweithio gartref i fynychu cyfarfodydd mewnol. Cyhoeddir papurau yn electronig | 31/03/18 | Swyddog Gwasanaethau Swyddfa; Rheolwr Caffael; Rheolwr Ymgysylltu â Rhanddeiliaid; Swyddog Digwyddiadau; Rheolwr Cydlynu Arolygiadau |

| Cyf | Amcan | Targed / Camau Gweithredu | Adroddiad cynnydd | Terfyn amser | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 3.3 cynyddu cyfathrebu electronig yn holl gyfarfodydd a digwyddiadau a gweithgareddau swyddfa Estyn.<br><br>3.4 Monitro a rheoli'r ffordd y caiff gwastraff ei ddidoli.<br><br>3.5 Cynyddu'r defnydd o gyfathrebu electronig yn ystod y broses recriwtio. | trwy ddolen gyswllt at y dogfennau perthnasol yn Sharepoint.<br><br>Cyflwynwyd defnydd ehangach o argraffu diogel eleni hefyd, gan leihau gwastraff papur yn yr ystafell bost, ac mae staff yn fwy detholus ag anghenion argraffu.<br><br>Bu tîm Digwyddiadau Estyn yn edrych ar ddulliau o leihau'r defnydd o bapur cyn pob prosiect gyda Swyddog Arweiniol yr hyfforddiant. Ar gyfer noson Wobrwyo Estyn eleni, roedd cyfathrebu yn digwydd mwy ar y we ac yn cynnwys defnyddio baneri y gellir eu hailddefnyddio yn y digwyddiad.<br><br>3.4 Mae tîm Gwasanaethau Swyddfa Estyn yn rheoli'r arfer o ddidoli ffrydiau gwastraff yn y swyddfa yn effeithiol. Mae monitro'n digwydd trwy gyswllt rheolaidd â chyflenwyr gwasanaethau trwy gyfarfodydd rheoli contractau a chwblhau cofnodion gwastraff yn rheolaidd.<br><br>3.5 Mae Estyn wedi ymrwymo i leihau gwastraff yn ei brosesau recriwtio; caiff ceisiadau eu hystyried yn electronig gan y panel recriwtio gan ddefnyddio gliniaduron a chofbinnau. | | |
| T04 | Amcan 4: Lleihau effaith cludiant y sefydliad gan gyfrannu at y targed gostwng CO2 (T01). | 4.1 Monitro teithiau busnes sy'n cael eu gwneud yng ngherbydau personol y staff a'r teithiau busnes sy'n cael eu gwneud gan ddefnyddio'r contract llogi ceir. | **Cynnydd tuag at darged:**<br>Cludiant yw un o effeithiau mwyaf arwyddocaol y sefydliad ar yr amgylchedd. Yn ystod 2017-2018, roedd gostyngiad cyffredinol o 19% mewn allyriadau CO2 o gludiant, a oedd yn cynnwys 59% o gyfanswm ein hallyriadau ar gyfer y cyfnod. (Roedd hyn yn 66% yn 2016-2017). | 31/03/18 | Rheolwr Caffael; Rheolwr Ymgysylltu â Rhanddeiliaid; Swyddog Digwyddiadau |

| Cyf | Amcan | Targed / Camau Gweithredu | Adroddiad cynnydd | Terfyn amser | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 4.2 Anelu at leihau teithio diangen gan staff ac annog gyrru eco.<br><br>4.3 Sicrhau bod y contract llogi ceir yn bodloni meini prawf cynaliadwy. | 2012-2013 - 98,980 kg $CO_2$<br>2013-2014 – 116,322 kg $CO_2$<br>2014-2015 – 107,578 kg $CO_2$<br>2015-2016 – 111,096 kg $CO_2$<br>2016-2017 – 112,656 kg $CO_2$<br>2017-2018 - 90,955 kg $CO_2$<br><br>Rydym yn monitro'r dangosydd amgylcheddol hwn yn barhaus, ac mae gennym strategaethau ar waith i leihau effaith ein cludiant ar yr amgylchedd.<br>Yn ychwanegol, mae Estyn yn cefnogi staff sy'n dymuno beicio i'r gwaith/mynychu cyfarfodydd ar feic; rydym yn cynnig cyfleuster storio beiciau ac yn darparu gwybodaeth am lwybrau beicio diogel o amgylch swyddfa Caerdydd.<br><br>4.1 Cofnodir y defnydd a wneir o gerbydau preifat ar gyfer teithiau busnes ar ffurflenni teithio a chynhaliaeth staff, ynghyd â data allyriadau $CO_2$, a adroddir yn rheolaidd gan y tîm Caffael. Caiff cofnod llogi ceir ei gynnal hefyd ar gyfer hyn.<br>Roedd milltiredd blynyddol arolygwyr a gofnodwyd ar ddiwedd 2017-2018 yn dangos gostyngiad o 18% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.<br><br>4.2 Mae Estyn yn annog cydweithwyr i rannu car wrth deithio ar fusnes swyddogol er mwyn lleihau effaith teithio i'r swyddfa ar yr amgylchedd. Parhaodd y sefydliad i wneud defnydd eang o'i gyfleuster galwadau cynadledda rhyngweithiol i leihau teithio i gyfarfodydd yn ystod y cyfnod; gan gefnogi gostyngiad mewn allyriadau $CO_2$ o gludiant a lles staff. | | |

| Cyf | Amcan | Targed / Camau Gweithredu | Adroddiad cynnydd | Terfyn amser | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Hefyd, mae AEM sy’n gyrru fel rhan o’u rôl yn mynychu cwrs gyrru gorfodol pan gânt eu penodi (diweddarir bob 3 blynedd).<br>Mae Estyn yn ymdrechu i drefnu cyrsiau a digwyddiadau yn ddaearyddol hefyd i leihau teithio i ddigwyddiad.<br><br>4.3 Rheolir defnydd Estyn o logi ceir trwy Fframwaith Cymru Gyfan lle mae ystyriaeth i gynaliadwyedd yn hanfodol ar gyfer cynnwys cyflenwyr yn y fframwaith. Caiff cerbydau eu dewis yn benodol oherwydd eu cyfraddiadau allyriadau isel, ac fe gaiff y cerbydau a logir eu diweddaru’n rheolaidd i gefnogi hyn. | | |
| T05 | Amcan 5: Cyfleu mentrau amgylcheddol (a chynaliadwyedd ehangach) i’r cyhoedd a’r staff. | 5.1. Sicrhau bod pob un o’r staff yn ymwybodol o’r Polisi Amgylcheddol a’n hamcanion.<br>5.2. Sicrhau bod polisïau Estyn yn cyfrannu at gynaliadwyedd. | 5.1 Mae Estyn yn gweithio i sicrhau y gwneir y mwyaf o ymwybyddiaeth staff o’i Bolisi Amgylcheddol a’i amcanion mewn nifer o ffyrdd, sef:<br>• Caiff Polisi Amgylcheddol Estyn ei arddangos yn nerbynfa ein swyddfa.<br>• Mae’r Polisi a’r Datganiad Amgylcheddol wedi’i gyhoeddi ar ein gwefan, ynghyd â’n Cofrestr Agweddau Amgylcheddol ac adroddiad cynnydd ar ein hamcanion.<br>• Caiff cynnydd o ran ein hamcanion ei drafod yn rheolaidd yng Ngrŵp Cyflwyno Gwasanaethau Estyn (fforwm rheolaidd ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol a staff Arolygu)<br>• Cadarnhaodd yr asesydd allanol ar gyfer Dyfarniad y Ddraig Werdd fod Estyn wedi bodloni lefel 3 y safon yn ei hadroddiad archwilio a dderbyniwyd ar 23 Chwefror 2018.<br>• Defnyddir tudalen gyhoeddiadau Estyn ar y fewnrwyd, cylchlythyrau mewnol a chylchlythyrau i adrodd ar gynnydd amgylcheddol. | 31/03/18 | Swyddog Arweiniol: Cynaliadwyedd |

| Cyf | Amcan | Targed / Camau Gweithredu | Adroddiad cynnydd | Terfyn amser | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | 5.2 Cynhelir asesiadau effaith ar gyfer pob polisi Estyn sy'n cynnwys ystyriaeth i berfformiad amgylcheddol. Rydym yn asesu effaith bosibl polisi (cadarnhaol, negyddol a dim effaith) ar weithgarwch gweithredol amgylcheddol Estyn (e.e. lleihau gwastraff ac arferion swyddfa cynaliadwy, effeithlonrwydd o ran ynni, lleihau effaith amgylcheddol teithio swyddogol) ac ar ADCDF. Yn ychwanegol, mae Atodiad 1 Cynllun Blynyddol Estyn 2017 - 2018 yn amlinellu'r modd y mae Estyn yn cyfrannu at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, e.e. materion lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. Mae'r ddogfen yn cynnwys cyfeiriad at adroddiadau cylch gwaith/arolwg perthnasol yn y gorffennol a'r dyfodol i ddangos tystiolaeth o hyn. | | |
| T06 | Amcan 6: Parhau i ymgorffori ystyriaethau amgylcheddol mewn gweithdrefnau prynu | 6.1 Byddwn yn prynu nwyddau a gwasanaethau i leihau effeithiau amgylcheddol niweidiol.<br>6.2 Byddwn yn defnyddio cyflenwyr lleol lle bo'n briodol.<br>6.3 Byddwn yn annog cyflenwyr i ymrwymo i wella perfformiad amgylcheddol. | 6.1 Mae Estyn wedi ymrwymo i ddefnyddio'r llwybr sy'n fwyaf cost effeithiol/amgylcheddol gadarn wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau. Gwelir tystiolaeth o hyn trwy ddefnydd eang Estyn o fframweithiau lle archwiliwyd i gefndir cyflenwyr eisoes ar gyfer eu hymrwymiad i wella'r amgylchedd i gymhwyso ar gyfer eu cynnwys mewn tendrau.<br><br>6.2 Pan na fydd fframwaith addas gan y llywodraeth neu ar adegau lle nad yw cost nwyddau/gwasanaethau yn gofyn am dendr llawn, darperir cyflenwyr trwy gronfa ddata Sell2Wales; mae cefnogi mentrau bach a chanolig yn flaenoriaeth allweddol i ni.<br><br>Mae defnyddio'r llwybr hwn wedi galluogi Estyn i ymgysylltu'n gadarnhaol â chyflenwyr lleol, e.e. datblygwyr TG, arlwywyr ar gyfer digwyddiadau ar y safle, | 31/03/18 | Rheolwr Caffael |

| Cyf | Amcan | Targed / Camau Gweithredu | Adroddiad cynnydd | Terfyn amser | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | contractwyr glanhau a gwaith cynnal a chadw, a lleihau allyriadau a lleihau'r ôl-troed carbon lle bo modd.<br>Hefyd, pan fydd angen gwasanaethau ychwanegol fel cyfieithu ar y pryd ar gyfer digwyddiad Estyn, ein nod yw caffael cyfieithwyr sy'n byw yn agos at leoliadau hyfforddi er mwyn lleihau effaith teithio ar yr amgylchedd.<br><br>6.3 Ar gyfer yr holl gaffael perthnasol nad yw'n ymwneud ag arolygu, mae'n ofynnol i gontractwyr gefnogi ymrwymiad Estyn i leihau ei effaith ar yr amgylchedd a rhoddir y ddolen gyswllt i'r wefan ar gyfer polisi Amgylcheddol Estyn iddynt. Mae Estyn yn gofyn am dystiolaeth o'r ymrwymiad hwn wrth werthuso cynigion tendr.<br><br>Wrth droi at gaffael gwasanaethau'n gysylltiedig ag arolygiadau, aeth cyfnod dau prosiect Proffiliau Arolygwyr Estyn yn fyw ym mis Awst 2017. Gall Arolygwyr Ychwanegol dan Gontract gyflwyno eu cynigion contract i ni yn electronig a derbyn contractau trwy borth diogel. Hefyd, mae'r system hon yn offeryn effeithiol ar gyfer rheoli a darparu arolygwyr, ac mae wedi dileu'r angen i gyhoeddi llythyrau cynigion contract , gan leihau'r gofynion argraffu i'r ddwy ochr.<br>Yn ychwanegol, mae'r rhan fwyaf o gyflenwyr yn anfon eu hanfonebau atom trwy'r e-bost. | | |

# Atodiad 2: Cofrestr Agweddau Amgylcheddol 2017-2018

| Identification of Environmental Aspects | | | | | | | | | | | Consequence | | | Likelihood | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aspect Area | | Activity | Volume/Quantity 2016-17 | Volume/Quantity 2017-18 | Direct Impact | Indirect Impact | Land/Air/Water | Normal/Unusual | Env Legal/ Regulatory | Legislation Reference | Legislation | Env Damage | Scale / Amount | Control | Frequency | Risk | Significance Rating | Significant (Y/N) | O&T Reference 2018-2019 | Procedure reference | |
| A01 | **Materials, Equipment and Storage (excludes disposal)** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | Office Paper actual usage (not paper ordered) | General use of paper | 730 reams | 845 reams | D | | L | N | N | | 1 | 3 | 2 | 2 | 3 | 1 | **36** | N | T02/T03 | | |
| | IT Consumables | Office / HMI use | 235 black / 525 colour | 304 black / 587 colour | D | | L | N | N | | 1 | 2 | 2 | 1 | 2 | 1 | **20** | N | T06 | | |
| | IT Equipment | Office / HMI use | 133 Monitors,<br>70 Workstations<br>130 Laptops<br>5 office printers<br>85 home printers<br>11 portable printers used for events<br>12 Tablets | 158 Monitors,<br>76 Workstations<br>116 Laptops<br>3 office printers<br>66 home printers<br>11 portable printers used for events<br>23 Tablets | D | | L / A | N | N | | 1 | 3 | 2 | 1 | 3 | 1 | **30** | N | T01/T06 | | |
| | Cleaning Materials | | Boxes of:<br>• Anti-bacterail soap - 24 lit<br>• Mild form handwash - 10 lit<br>• Brite Glass Polish - 2.25ml<br>• Multi surface cleaner- 10 lit<br>• Scale IT descaler cleaner - 10 lit<br>• Floor IT -neutral cleaner -30 lit<br>• Freshen IT neutral sanitary cleaner - 20 lit<br>• Purell hygenic hand gel - 10 lit<br>• Multi purpose gloves - 8 boxes of 100<br>• Black sacks - 1,200<br>• Fairy washing-up liquid - 4 lit<br>• Dry foam carpet shampoo - 10 lit<br>Clothes/sponges/dusters - 325<br>Concept 2000 heavy duty cleaner'degreaser - 5 lit<br>LSP furniture polish - 7 lit<br>Scale IT toilet cleaner - 6 lit<br>Wet wipes - 10 boxes of 100<br>Excel socket mop heads - 30<br>Enviro W1 - washroom cleaner - 4 lit | Boxes of:<br>• Anti-bacterail soap - 22 lit<br>• Mild form handwash - 10 lit<br>• Brite Glass Polish - 3.75ml<br>• Multi surface cleaner- 5 lit<br>• Scale IT descaler cleaner - 12 lit<br>• Floor IT -neutral cleaner -10 lit<br>• Freshn IT neutral perfumed sanitary cleaner - 15 lit<br>• Purel hygenic hand gel - 10 lit<br>• Multipurpose gloves - 2 boxes *100<br>• Black sacks - 1,000<br>Crystal clean Glass cleaner - 4 lit<br>Dry foam carpet shampoo - 10 lit<br>Cloths/sponges /dusters - 155<br>Concept 2000 heavy duty cleaner /degreaser - 5 lit<br>LSP furniture polish - 10 lit<br>Scale IT toilet cleaner - 6 lit<br>Anti static wipes - 700<br>Excel socket mop heads - 32<br>Enviro W1 - washroom cleaner - 5 lit | D | | L/A/W | N | Y | J&M | 3 | 2 | 1 | 2 | 3 | 1 | **36** | Y | T06 | | |
| | Office equipment | Office use | 2 photocopiers / 4 fridges /2 dishwasher/ 2 microwaves | 2 photocopiers / 4 fridges /2 dishwasher/ 2 microwaves | D | | L/A | N | N | | 1 | 3 | 2 | 1 | 3 | 1 | **30** | N | T06 | | |
| A02 | **Use of Energy** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | Use of Electricity (Lighting, equipment etc) | Office use | 106464 kwh | 138,911 | D | | A | N | Y | K&L | 3 | 3 | 2 | 1 | 3 | 1 | **40** | Y | T01 | | |
| | Use of Gas (Heating) | Office use | 76595 Kwh | 111176 Kwh | D | | A | Un | Y | K&L | 3 | 3 | 1 | 1 | 1 | 1 | **21** | Y | T01 | | |
| A03 | **Water Useage and Discharge** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | Use of water (Domestic) | Office use | 540 m3 | 546m3 | D | | W | N | N | | 1 | 3 | 1 | 2 | 3 | 1 | **30** | N | | | |
| | Discharge of water (Domestic to sewer Internal) | Office use | data n/a | Data n/a | D | | W | N | Y | G&H | 1 | 2 | 1 | 2 | 3 | 1 | **24** | Y | | Estyn's Pollution Prevention Plan | |
| | Discharge of water (Run off to storm water External) | Office use | data n/a | | | ID | W | N | Y | G&H | 1 | 1 | 2 | 2 | 2 | 1 | **20** | Y | | Estyn's Pollution Prevention Plan | |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A04 | **General waste (disposal of)** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | General waste (energy recovery & zero landfill from 1 Sept 15) | Waste disposal | 1,470 Kg | 1435 kg | D | | L/W | N | Y | A,B,D&E | 3 | 2 | 2 | 1 | 3 | 1 | **35** | Y | T03 | | |
| | Paper Confidential | Waste disposal | 3300 Kg | 1550 kg | D | | L | N | Y | A,B,D&E | 3 | 2 | 2 | 1 | 3 | 1 | **35** | Y | T02/T03 | | |
| | Paper Non Confidential | Waste disposal | 622 Kg | 440 kg | D | | L | N | Y | A,B,D&E | 3 | 2 | 2 | 1 | 3 | 1 | **35** | Y | T02/T03 | | |
| | Cardboard | Waste disposal | 389 Kg | 466 kg | D | | L | N | Y | A,B,D&E | 3 | 2 | 2 | 1 | 2 | 1 | **28** | Y | T02/T03 | | |
| | Mixed recycling (Compostable food waste and drink cans and plastic bottles, etc.) | Waste disposal | 1452 Kg | 1260 kg | D | | L | N | Y | A,B,D&E | 3 | 2 | 2 | 1 | 3 | 1 | **35** | Y | T02/T03 | | |
| | Ink Cartridges | Waste disposal | 69 Kg | 78 kg | D | | L | N | Y | A,B,D&E | 3 | 2 | 2 | 1 | 2 | 1 | **28** | Y | T02/T03 | | |
| | Hygienic waste -zero landfill from 1 April 2018 | Waste disposal | 78 bags (small) | 78 bags (small) | D | | L | N | Y | A,B,D&E | 3 | 3 | 1 | 1 | 2 | 1 | **28** | Y | T02/T03 | From 2018-2019 this waste stream will not be recorded as going to landfill - now used for energy recovery. PHS transfer sanitary waste from Cardiff to Bristol and then onto the Midlands incinerator plant. | PHS Lifecycle leaflet |
| A05 | **Hazardous Waste** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | Recycled IT / Electrical Equipment | Waste disposal | 159 units (1,348kg) | 109 units (407 kg) | D | | L/A | Un | Y | A,B&C | 3 | 3 | 3 | 1 | 2 | 1 | **36** | Y | | Procedures to Ensure Ongoing Compliance with Register of Compliance Obligations - Ref no A,B&C | |
| | Batteries | Waste disposal | 0 | 0 | D | | L/A | N | Y | A,B&C | 3 | 3 | 1 | 1 | 2 | 1 | **28** | Y | | Procedures to Ensure Ongoing Compliance with Register of Compliance Obligations - Ref no A,B&C | |
| | Fluorescent tubes | Waste disposal | 0 | 0 | D | | L/A | N | Y | A,B&C | 3 | 3 | 1 | 1 | 2 | 1 | **28** | Y | | Procedures to Ensure Ongoing Compliance with Register of Compliance Obligations - Ref no A,B&C | |
| | R407 in air con units | Waste disposal | 0 | 0 | D | | A | N | Y | A,B&F | 3 | 3 | 1 | 1 | 2 | 2 | **35** | Y | | Procedures to Ensure Ongoing Compliance with Register of Compliance Obligations - Ref no A,B&F | |
| A06 | **Transport** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | Business Miles (staff personal vehicles & car hire contract) | transport | 354,858 miles | 291,217 miles | D | | A | N | N | | 1 | 3 | 3 | 2 | 3 | 1 | **42** | Y | T04 | Procedures set out in Estyn's Travel & Subsistence Policy | |
| | Staff miles (home to office) | transport | data n/a | data n/a | | ID | A | N | N | | 1 | 3 | 2 | 2 | 3 | 1 | **36** | N | | | |
| | Business miles Rail (calendar year) | transport | data n/a | 33,233 miles | D | | A | N | N | | 1 | 3 | 3 | 2 | 3 | 1 | **42** | Y | T04 | Procedures set out in Estyn's Travel & Subsistence Policy | |
| | Business miles Air (calendar year) | transport | data n/a | 17,698 miles | D | | A | N | N | | 1 | 3 | 3 | 2 | 3 | 1 | **42** | Y | T04 | Procedures set out in Estyn's Travel & Subsistence Policy | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| A07 | **Services** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | Core inspections | core service | 345 | 344 | D | | L/A | N | N | | 1 | 3 | 3 | 2 | 3 | 1 | **42** | Y | T03/T04 | | |
| | Follow-up inspection | core service | 188 | 157 | D | | L A | N | N | | 1 | 3 | 3 | 2 | 3 | 1 | **42** | Y | T03/T04 | | |
| | Remit / Advice to the Assembly | core service | 12 | 13 | D | | L/A | N | N | | 1 | 3 | 2 | 2 | 2 | 1 | **30** | N | T03/T04 | | |
| | Training courses/ conferences / best practice events | core service | 52 | 53 | D | | L/A | N | N | | 1 | 3 | 2 | 2 | 2 | 1 | **30** | N | T03/T04 | | |
| | Best practice case studies | core service | 58 | 64 | D | | L/A | N | N | | 1 | 3 | 2 | 2 | 2 | 1 | **30** | N | T03/T04 | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| A08 | **Miscellaneous** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | Accident or incident affecting the environment in course of business travel | environmental matter | data n/a | 0 | | ID | L,A,W | E | N | | 1 | 3 | 1 | 3 | 1 | 1 | **25** | N | | Estyn's policy for driving as part of official duties | |
| | spillage of oil, petrol or diesel in car park | environmental matter | 0 | 0 | D | | L,A,W | E | N | | 1 | 3 | 1 | 1 | 1 | 1 | **15** | N | | Pollution Prevention Plan | |
| | Emergency: Fire, flooding | Emergency situation | 0 | 0 | D | | A,L,W | E | N | | 1 | 3 | 1 | 2 | 1 | 3 | **30** | N | | Pollution Prevention Plan | |
| | Management of site contractors | On-site contractors | 10 | 11 | D | | L,W | N | N | | 1 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | **30** | N | T06 | Waste Carrier Information document | |

Date last reviewed: 26/11/2018

**Senior Management approval:**

Director of Corporate Services (and Director with responsibility for Sustainability)

Signature: Phil Sweeney    Date: 22/01/19